Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen

# Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed ar waith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd

Medi 2011

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith – Cyrhaeddiad y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Crynodeb


Mae effaith y Cyfnod Sylfaen ar les plant wedi bod yn gadarnhaol, ac mewn mwyafrif o ysgolion, mae plant pump i chwech oed yn cyflawni'n dda. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw hyn yn wir, yn aml gan nad yw arweinwyr ac ymarferwyr yn deall egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr ac ymarferwyr wedi arfarnu'r Cyfnod Sylfaen yn ddigon trylwyr i nodi ble mae'n gweithio'n dda a beth mae angen ei wella. Mewn rhai ysgolion, nid yw staff yn argyhoeddedig ynglŷn â gwerth addysgol y Cyfnod Sylfaen ac nid ydynt ychwaith yn gwybod digon amdano i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

Ym mwyafrif yr ysgolion lle mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn dda, mae ffocws ar godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid oes digon o addysgu darllen yn uniongyrchol ac ni ddarperir cyfleoedd priodol i blant ymarfer a defnyddio eu medrau darllen bob amser. Er bod y Cyfnod Sylfaen bron ym mhob ysgol yn darparu cyd-destunau cyfoethog a chyfleoedd ysgogol ar gyfer ysgrifennu, mae ystod ac ansawdd gwaith ysgrifenedig plant mewn llawer o ysgolion yn aml yn gyfyngedig oherwydd bod tasgau ysgrifennu yn fformiwläig ac nid ydynt yn ddigon heriol.

Mae lles llawer o blant yn elwa ar roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Yn gyffredinol, gwelir ei fanteision yng nghymhelliant a mwynhad cynyddol y plant wrth ddysgu. Mae dulliau dysgu gweithredol* a defnyddio'r amgylchedd dysgu* awyr agored yn helpu ennyn diddordeb bechgyn yn fwy yn eu dysgu.

Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn cael ei ddatblygu'n dda yn y mwyafrif o ysgolion. Fodd bynnag, yn aml, nid yw ymarferwyr yn rhoi digon o gymorth i wneud y mwyaf o ddysgu'r plant, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes darpariaeth awyr agored, neu mae'n gyfyngedig.


---
* Esbonnir y termau sydd wedi'u nodi â seren yn yr eirfa.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Prif ganfyddiadau** | **1** |
| **Argymhellion** | **3** |
| **Cyd-destun** | **4** |
| Diben yr adroddiad | 4 |
| Cefndir | 4 |
| **Safonau a lles plant** | **5** |
| Safonau | 5 |
| Lles plant | 6 |
| **Ansawdd yr addysgu a'r asesu** | **7** |
| Ansawdd yr addysgu | 7 |
| Asesu | 10 |
| **Cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu** | **12** |
| Cynllunio'r cwricwlwm | 12 |
| Yr amgylchedd dysgu | 15 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth a gwella ansawdd** | **18** |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | 18 |
| Gwella ansawdd | 20 |

**Atodiad 1: Sail y Dystiolaeth**
**Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer hunanarfarnu i hyrwyddo gwelliant**

**Geirfa**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Prif ganfyddiadau

1 Mae effaith y Cyfnod Sylfaen ar les plant wedi bod yn gadarnhaol ac mewn mwyafrif o ysgolion, mae plant pump i chwech oed yn cyflawni'n dda er nad oes unrhyw ddata ar ddeilliannau asesedig eto i helpu barnu effaith. Mewn llawer o ysgolion, mae'r dulliau a ddefnyddir yn y Cyfnod Sylfaen yn helpu gwella cymhelliant plant a'u hagweddau at ddysgu. Mae bechgyn, yn benodol, yn elwa ar ddulliau dysgu gweithredol* sy'n ennyn eu diddordeb yn fwy uniongyrchol.

2 Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid yw plant yn dysgu digon yn y Cyfnod Sylfaen. Nid yw plant yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu am nad yw'r gweithgareddau a gynllunnir yn ddigon heriol ac nid oes cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan y plant* a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Mae diffyg cydbwysedd a chynllunio da yn cyfyngu ar ddatblygu medrau meddwl annibynnol a datrys problemau plant.

3 Er bod llawer o ysgolion yn parhau i ddarparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid yw plant yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu digon. Nid yw ymarferwyr yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant ddefnyddio'r medrau hyn ar draws y saith maes dysgu (neu'r chwe maes dysgu lle'r Gymraeg yw prif iaith y cyfathrebu). Mewn lleiafrif o ysgolion, yn aml, nid oes digon o sesiynau darllen ar y cyd*, mewn grŵp* neu dan arweiniad* neu ddigon o addysgu ffoneg yn rheolaidd. Er bod y Cyfnod Sylfaen yn darparu cyd-destunau cyfoethog a chyfleoedd ysgogol ar gyfer ysgrifennu, mae ystod ac ansawdd gwaith plant mewn llawer o ysgolion yn aml yn gyfyngedig. Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, mae tasgau ysgrifennu yn fformiwläig, yn ailadroddus ac nid ydynt yn ddigon heriol.

4 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae ymarferwyr wedi addasu eu harfer yn yr ystafell ddosbarth yn dda i adlewyrchu dulliau dysgu ac addysgu'r Cyfnod Sylfaen. Rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith yn y ffordd fwyaf llwyddiannus lle mae gan ymarferwyr ac arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'i egwyddorion a'i addysgeg a disgwyliadau uchel o'r hyn y gall plant ei wneud. Mae'r ysgolion gorau yn cynnal ffocws cryf ar godi safonau llythrennedd ac maent yn defnyddio'r Cyfnod Sylfaen i ddarparu cyfleoedd dysgu newydd a chyffrous i helpu plant i wella eu medrau darllen ac ysgrifennu.

5 Mae arferion asesu yn datblygu'n raddol mewn ysgolion. Mae arsylwadau a rhyngweithio gyda phlant yn rheolaidd yn helpu ymarferwyr i ganolbwyntio ar gyflawniadau a datblygiad plant. Yn gynyddol, mae ysgolion yn cynnwys plant mwy trwy ddefnyddio dulliau fel asesu ar gyfer dysgu,* ond nid yw'r dull hwn wedi'i ddatblygu'n llawn mewn llawer o ysgolion ac mae lle i wella.

6 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gwendidau wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Yn yr ysgolion hyn, mae diffyg dealltwriaeth fel arfer ynglŷn â'r egwyddorion a'r arfer sy'n cael eu hyrwyddo gan y Cyfnod Sylfaen, sy'n arwain at wendidau mewn dysgu ac addysgu, ac mewn cynllunio. Mewn rhai ysgolion, nid yw ymarferwyr ac arweinwyr

[*] Esbonnir y termau sydd wedi'u nodi â seren yn yr eirfa.

yn gwybod digon am y Cyfnod Sylfaen i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol neu nid ydynt yn argyhoeddedig ynglŷn â'i werth addysgol.

7 Mae llawer o ysgolion wedi bod yn llwyddiannus yn addasu cynnwys eu cwricwlwm o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i'r Cyfnod Sylfaen. Maent wedi bod yn fwy llwyddiannus yn addasu 'beth' yn y cynnwys nag y maent wedi bod yn addasu 'sut' i gyflwyno. Nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn llwyddiannus yn sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu wedi'i ddechrau gan blant a dysgu wedi'i arwain gan ymarferwyr. Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw ymarferwyr yn canolbwyntio digon o hyd ar ddatblygu medrau meddwl, rhifedd a TGCh plant ar draws pob maes dysgu.

8 Mae mwy o ddysgu yn yr awyr agored yn y mwyafrif o ysgolion. Mewn lleiafrif o ysgolion, lle mae ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r amgylchedd awyr agored, mae'n cyfrannu'n dda at ddysgu'r plant. Mewn lleiafrif o ysgolion, lle nad oes unrhyw ddarpariaeth awyr agored neu ddarpariaeth gyfyngedig, mae dewisiadau plant ar gyfer dysgu yn gyfyngedig. Yn aml, hyd yn oed pan fydd darpariaeth dda yn yr awyr agored, nid oes digon o gymorth gan ymarferwyr i wneud y gorau o ddysgu'r plant, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu.

9 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â heriau'r Cyfnod Sylfaen yn dda. Lle mae ysgolion wedi bod yn fwyaf llwyddiannus, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, mae rheolwr canol yn arwain arfer yn effeithiol ac mae gwaith tîm da ymhlith ymarferwyr gwybodus. Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr yn paratoi'n dda ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant chwech a saith oed a throsglwyddo plant i gyfnod allweddol 2. Mae ethos sefydledig o welliant, yn seiliedig ar hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol, wedi cyfrannu at lwyddiant yr ysgolion hyn.

10 Mewn lleiafrif o ysgolion, lle nad yw hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda, nid yw rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith wedi cael ei arfarnu'n ddigon trylwyr i nodi ble mae'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella. Mae hyn yn golygu nad yw ymarferwyr yn gallu gwella eu cynllunio neu fesur effaith y Cyfnod Sylfaen ar safonau.

## Argymhellion

11 Dylai ysgolion:

A1 arfarnu eu harfer yn well (gweler Atodiad 2 am awgrymiadau);

A2 sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd, wedi'u cynllunio'n dda i blant wella eu medrau darllen ac ysgrifennu;

A3 datblygu cydbwysedd gwell rhwng dysgu sy'n cael ei ddechrau gan y plant a dysgu sy'n cael ei arwain gan ymarferwyr;

A4 cynllunio gweithgareddau mwy heriol i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu;

A5 gwneud yn siŵr bod pob arweinydd ac ymarferwr yn deall egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'u troi yn arfer effeithiol; a

A6 datblygu darpariaeth awyr agored fel ei bod yn cyfrannu'n llawn at ddysgu'r plant.

12 Dylai awdurdodau lleol:

A7 gefnogi pob ysgol i ddatblygu gwybodaeth gadarn am egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen; a

A8 gweithio gydag ysgolion i wella ystod ac ansawdd y dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael i arfarnu effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen.

13 Dylai Llywodraeth Cymru:

A9 gyflwyno arweiniad ar arfer dda mewn:

- addysgu darllen ac ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen i ategu'r hyn sydd ar gael ar gyfer cyfnod allweddol 2;
- sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu sy'n cael ei ddechrau gan y plant a dysgu sy'n cael ei arwain gan ymarferwyr; a
- defnyddio'r amgylchedd awyr agored.

# Cyd-destun

## Diben yr adroddiad

14 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i’r cylch gwaith Gweinidogol blynyddol i Estyn gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd yr arfarniad i:

- adrodd ar roi’r Cyfnod Sylfaen ar waith ar gyfer plant pump a chwech oed, gan ganolbwyntio’n benodol ar lythrennedd;
- amlygu enghreifftiau o arfer orau; a
- darparu gwybodaeth i roi cefnogaeth lawn i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen i blant chwech a saith oed ym Medi 2011.

15 Mae’r adroddiad wedi’i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid ac ymarferwyr mewn ysgolion a swyddogion ac ymgynghorwyr awdurdodau addysg lleol. Gallai’r adroddiad fod o ddiddordeb hefyd i sefydliadau sy’n hyfforddi athrawon ac i awdurdodau esgobaethol eglwysig.

## Cefndir

16 Cynlluniwyd y Cyfnod Sylfaen i fodloni anghenion datblygiadol pob plentyn. Mae wedi’i seilio ar yr egwyddor y dylai cwricwlwm sy’n ddatblygiadol briodol gynnig sylfeini cadarn ar gyfer dysgu plant. Fe’i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gan fod tystiolaeth ymchwil yn dangos nad yw plant yn dechrau elwa ar addysgu ffurfiol helaeth nes eu bod yn chwech neu’n saith oed. Mae’n cyfuno’r hyn a elwid yn Addysg y Blynyddoedd Cynnar (i blant 3 i 5 oed) a Chyfnod Allweddol 1 (5 i 7 oed) y Cwricwlwm Cenedlaethol.

17 Un o nodau allweddol y Cyfnod Sylfaen yw cyfrannu’n fwy effeithiol i atal tangyflawni a chodi safonau yn gyffredinol. Am y deng mlynedd diwethaf, ychydig o welliant a welwyd yn y safonau a gyflawnir gan y mwyafrif o blant saith oed mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn benodol, mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith, ychydig o gynnydd a welwyd yng nghanran y plant saith oed sy’n cyflawni o leiaf lefel 2 (y lefel sy’n ddisgwyliedig gan y mwyafrif o ddisgyblion). Mae gwahaniaeth sylweddol hefyd rhwng perfformiad merched a bechgyn, sy’n amlwg yn y cyfnod hwn. Er bod safonau ychydig yn uwch mewn Cymraeg a Saesneg yn 2010, fe wnaethant aros ar lefel debyg i’r lefel chwe blynedd yn ôl. Methodd ychydig dros un ym mhob chwe disgybl i gyrraedd o leiaf lefel 2 mewn Saesneg yn 2010.

18 Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i bedair oed ym Medi 2008 ac ym Medi 2010 ar gyfer plant pump i chwech oed. Bydd cam olaf y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer plant chwech i saith oed, yn cael ei gyflwyno ym Medi 2011. Yn ystod blwyddyn academaidd 2011-2012, bydd y set ddata genedlaethol gyntaf o ddeilliannau’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu.

## Safonau a lles plant

19 Mae'n parhau i fod yn ddyddiau cynnar o ran rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i allu barnu ei effaith yn llawn ar y safonau a gyflawnir gan blant pump i chwech oed. Nid oes unrhyw ddeilliannau asesu mesuradwy ar gael i nodi ei effeithiau. Mae ysgolion hefyd yn rhoi ystod o fentrau a strategaethau eraill ar waith a gynlluniwyd i wella safonau ac addysgu ar yr un pryd.

### Safonau

20 Ceir arwyddion cynnar o fanteision cadarnhaol i ddysgu plant lle caiff y Cyfnod Sylfaen ei ddeall yn dda a'i roi ar waith yn llawn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn fwy amlwg ym meysydd lles plant yn hytrach na safonau. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ysgolion sy'n hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen yn dda:

- caiff plant fwy o gyfleoedd i ddatblygu a defnyddio eu medrau llefaredd, sydd o fudd i ddatblygu eu medrau llythrennedd a dysgu;
- mae plant yn fwy annibynnol oherwydd eu bod yn cael mwy o gyfleoedd i feddwl drostynt eu hunain a defnyddio medrau datrys problemau;
- mae bechgyn yn elwa ar ddulliau dysgu gweithredol a defnyddio dysgu yn yr awyr agored ac maent yn aml yn dangos mwy o ddiddordeb yn eu dysgu, sy'n helpu iddynt gyflawni mwy; ac
- mae llawer o blant wedi'u cymell yn well ac yn dangos mwy o ymrwymiad i'w dysgu, sy'n helpu iddynt gyflawni safonau uwch.

21 Ar wahân i gyflawni lefelau uchel o ymgysylltu yn eu dysgu, mae plant hefyd yn elwa ar ddefnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd a'u datblygiad corfforol.

22 Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, mae gwendidau mewn safonau. Nid yw plant yn elwa cymaint ag y dylent gan nad yw'r gweithgareddau a gynllunnir yn ddigon heriol ac mae'r cydbwysedd rhwng dulliau yn seiliedig ar chwarae a dysgu gweithredol yn amhriodol. Pan nad oes digon o weithgareddau sy'n cael eu dechrau gan y plant, nid yw plant yn datblygu medrau meddwl annibynnol a medrau gwneud penderfyniadau yn ddigon da. Mewn rhai ysgolion eraill, lle nad oes digon o ddysgu sy'n cael ei arwain gan ymarferwyr, nid yw plant yn ennill y medrau y mae angen iddynt gael eu haddysgu amdanynt er mwyn datblygu medrau yn raddol, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. Caiff methiant o'r fath effaith andwyol ar eu cynnydd. Nid yw'r dulliau dysgu gweithredol sy'n cael eu hyrwyddo gan y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys datblygu medrau meddwl yn feirniadol a medrau datrys problemau plant, wedi'u datblygu'n dda mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion.

23 Mewn rhai ysgolion, caiff dysgu plant ei rwystro gan ddiffyg dealltwriaeth staff a'r ffaith nad ydynt yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae safonau llythrennedd plant gryn dipyn yn is nag y dylent fod. Mae diffyg dilyniant yn nysgu'r plant ac nid yw ymarferwyr yn addysgu ystod lawn o strategaethau darllen yn ddigon uniongyrchol neu'n cynnig cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n annibynnol.

24 Yn bump oed, mae llawer o blant yn cyflawni safonau uwch mewn llefaredd mewn Saesneg a Chymraeg na mewn darllen neu ysgrifennu. Y rheswm am hyn yw'r ffaith fod darllen ac ysgrifennu yn digwydd ar ôl caffael medrau iaith lafar. Fel arfer, mae plant yn datblygu medrau darllen yn gynharach ac yn gyflymach na medrau ysgrifennu. Mae ysgrifennu da yn aml yn deillio o symbyliadau pwerus sy'n berthnasol i anghenion a diddordebau plant ond mae hefyd yn dibynnu ar addysgu da. Er bod y Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyd-destunau a chyfleoedd cyfoethog ar gyfer ysgrifennu, mae ystod ac ansawdd ysgrifennu plant mewn llawer o ysgolion yn aml yn gyfyngedig. Dengys tystiolaeth ymchwil ac arolygu fod plant yn llawer mwy tebygol o ddangos diddordeb a chynhyrchu gwaith da pan roddir tasgau ysgrifennu iddynt sydd â diben go iawn a chynulleidfa go iawn, gan gynnwys i'w cyfoedion, eu hunain ac eraill. Mae angen rhoi mwy o flaenoriaeth i wella anghenion ysgrifennu plant mewn llawer o ysgolion.

## Lles plant

25 Mewn llawer o ysgolion, caiff y Cyfnod Sylfaen effaith gadarnhaol ar les plant. Yn yr ysgolion hyn, caiff cyfranogiad a mwynhad y plant a'u hagweddau at ddysgu eu gwella, yn enwedig trwy'r cyfleoedd cynyddol sydd ar gael ar gyfer dysgu sy'n cael ei ddechrau gan y plant a dysgu yn yr awyr agored. Mewn rhai ysgolion, dywed ymarferwyr fod ymddygiad a phresenoldeb plant wedi elwa hefyd. Gan fod plant wedi ymgysylltu mwy, maent yn awyddus i fynychu'n rheolaidd er mwyn cael mwy o fwynhad o'u dysgu.

26 Pan fydd ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn dewis gweithgareddau a datblygu medrau gwneud penderfyniadau, daw plant yn fwy hunanddibynnol ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Maent yn llawer mwy tebygol o roi eu syniadau eu hunain ar waith wrth ymgymryd â thasg neu'n dewis sut byddant yn ymgymryd â gweithgaredd, gyda phwy y byddant yn gweithio a ble y byddant yn cwblhau'r gwaith. Yn yr achosion hyn, daw plant yn fwy hyderus, yn aml oherwydd bod mwy o'r gweithgareddau a gynigir yn seiliedig ar chwarae lle gall plant 'gael tro' ac arbrofi â phethau heb deimlo dan bwysau i gael pethau'n gywir y tro cyntaf. Mae'r plant hyn yn elwa ar gael mwy o ddewis. Mae'r defnydd o'r amgylchedd awyr agored yn addas ar gyfer bechgyn yn benodol, sydd fel arfer yn mwynhau ac yn elwa mwy ar weithgareddau corfforol mwy gweithredol yn yr awyr agored. Ceir mwy o gyfleoedd hefyd i blant gymryd rhan mewn dysgu ar y cyd lle maent yn dysgu oddi wrth ei gilydd mewn parau a grwpiau bach.

27 Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, lle nad oes dealltwriaeth dda o egwyddorion dysgu arbrofol dan do ac yn yr awyr agored sy'n ategu'r Cyfnod Sylfaen neu lle nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, nid yw lles plant yn elwa cymaint ag y gallai. Yn yr ysgolion hyn, nid yw plant yn cael digon o gymorth na chyfleoedd i ddod yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol.

## Ansawdd yr addysgu a'r asesu

28 Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ffocws yr addysgu ar ddatblygu dysgu yn weithredol yn hytrach na thrwy drosglwyddo ffeithiau yn unig. Mae'n cynnwys defnyddio dulliau dysgu gweithredol, yn seiliedig ar chwarae, i ddatblygu syniadau plant, yn enwedig trwy eu medrau holi, cynllunio, datrys problemau a meddwl yn feirniadol. Mae angen arsylwi ac asesu cynnydd plant yn ofalus ym mhob maes dysgu i alluogi ymarferwyr i farnu pa gam y mae'r plant wedi'i gyrraedd er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

### Ansawdd yr addysgu

29 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae ymarferwyr wedi addasu eu harfer ystafell ddosbarth yn dda i adlewyrchu dulliau dysgu ac addysgu'r Cyfnod Sylfaen. Pan fydd ymarferwyr yn deall eu rôl yn llawn mewn cefnogi a herio dysgu'r plant, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, mae plant yn cyflawni'n dda. Yn yr ysgolion hyn, mae ymarferwyr yn mynd ati i hyrwyddo galluoedd plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am y meysydd dysgu sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth o'r hyn y mae plant yn barod i'w ddysgu. Mae'r ymarferwyr hyn yn cydnabod bod angen cynnal ffocws cryf ar lythrennedd er mwyn i blant allu dysgu medrau darllen ac ysgrifennu sy'n golygu y gallant fanteisio ar bob maes dysgu.

30 Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn dangos gwybodaeth gadarn am ddatblygiad y plentyn ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu'r plant. Ar draws yr ysgol, mae ymarferwyr yn deall yr hyn sy'n gysylltiedig â darparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cynnal ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd plant ac maent yn defnyddio'r Cyfnod Sylfaen i ddarparu cyd-destunau newydd a chyffrous ar gyfer dysgu'r plant. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd da iawn o chwarae rôl a'r amgylchedd yn yr awyr agored i ddarparu profiadau dysgu uniongyrchol cyfoethog ac ymarferol. Mae profiadau uniongyrchol yn hollbwysig i ddatblygu dysgu'r plant. Mae siarad am bethau go iawn sydd wedi digwydd yn helpu adeiladu geirfa eang a datblygu medrau llefaredd, sy'n cynnal ac yn cefnogi datblygiad darllen ac ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau. Yn yr ysgolion hyn, mae ymarferwyr hefyd yn treulio mwy o amser yn siarad ac yn rhyngweithio â'u plant, sy'n bwysig i ddatblygiad plant.

31 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae ymarferwyr wedi bod yn llai llwyddiannus yn annog dysgu gweithredol. Weithiau, y rheswm am hyn yw nad yw ymarferwyr wedi deall beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio dulliau yn seiliedig ar chwarae a dysgu gweithredol i ddatblygu ac ymestyn dysgu'r plant. Mewn ysgolion eraill, y rheswm am hyn yw nad yw ymarferwyr wedi addasu eu harfer digon yn unol â'r dulliau hyn. Mewn rhai ysgolion, lle nad yw ymarferwyr wedi bod yn glir ynglŷn â hyrwyddo dysgu gweithredol a dysgu sy'n cael ei ddechrau gan blant, mae hyn wedi cael effaith andwyol ar y safonau a gyflawnir gan blant, yn enwedig mewn llythrennedd.

32 Mae addysgu llythrennedd yn dda yn hanfodol ar gyfer llwyddiant plant. Effaith y cynnydd cynnar mewn llythrennedd yw bod safonau yn codi'n gyffredinol ac mae'n atal tangyflawni. Mae mwyafrif o ysgolion yn parhau i ddarparu cyfleoedd a chymorth

da i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd. Maent yn sicrhau bod plant yn gallu defnyddio ystod o strategaethau darllen, yn cynnwys ffoneg, 'edrych a dweud' a darllen er mwyn cael ystyr fel bod plant yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol.

33 Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn cytuno sut i addysgu ffoneg ac maent yn sicrhau bod rhaglen systematig ar draws y Cyfnod Sylfaen i alluogi plant i gaffael medrau ffoneg yn gyflym. Yn benodol, maent yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i addysgu ffoneg yn rheolaidd gyda chyfleoedd ar gyfer dysgu sy'n cael ei ddechrau gan blant a dysgu gweithredol ar draws ystod o weithgareddau llythrennedd. Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod plant yn ennill medrau llythrennedd da a'u bod yn blodeuo i fod yn ddysgwyr annibynnol ar yr un pryd.

34 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn rhoi enghraifft o'r ffordd y mae un ysgol wedi canolbwyntio ar elfennau pwysig parhad a dilyniant yn eu rhaglen ffoneg.

**Cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant mewn rhaglen ffoneg**

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fawr iawn yng Nghwmbrân yw Ysgol Gynradd Coed Efa yn Awdurdod Unedol Torfaen. Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnal ffocws ar addysgu llythrennedd. Mae'r ysgol wedi datblygu dull systematig ar gyfer dysgu ac addysgu ffoneg fel rhan o'u hymdrech i godi safonau llythrennedd yn dilyn arolygiad yn 2010.

**Strategaeth**

Er bod yr ysgol yn defnyddio cynllun ffoneg masnachol yn sylfaen ar gyfer addysgu darllen, mae ymarferwyr wedi llunio eu cynllun eu hunain i sicrhau bod parhad a dilyniant wrth addysgu ffoneg yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllun yn nodi disgwyliadau ar adegau allweddol yn natblygiad plant. Mae'n amlygu agweddau ar ffoneg, gan gynnwys seiniau a ffurfiant llythrennau, cyfuno ac adnabod seiniau mewn geiriau a dysgu geiriau astrus. Mae pob un o'r agweddau allweddol hyn yn cynnwys amcanion dysgu penodol ac mae'r cynllun yn rhoi arweiniad ar weithgareddau i hyrwyddo dysgu'r plant.

Mae'r arfer reolaidd iawn o ran ffoneg, yr ymgymerir â hi yn gyson ar draws yr ysgol, yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol plant. Mae rhediad da'r rhaglen yn sicrhau bod plant yn dysgu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn gyflym. Mae nodweddion effeithiol rhaglen ffoneg yr ysgol yn cynnwys:

- rhaglen glir, systematig a dilyniadol o ffoneg ar draws y Cyfnod Sylfaen;
- sesiynau ffoneg aml a rheolaidd;
- rhediad cyflym i gynnwys y rhaglen; a
- dulliau addysgu sy'n defnyddio dulliau ysgogol a diddorol, fel defnyddio'r amgylchedd awyr agored i chwilio am eiriau sy'n dechrau â'r un sŵn.

**Canlyniad**

Trwy ddull systematig, mae ymarferwyr yn adeiladu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau ffoneg sydd eu hangen ar blant ar yr adeg gywir. Mae'r gwaith yn codi safonau llythrennedd yn llwyddiannus.

35 Mewn rhai ysgolion, mae diffyg strwythur clir a systematig i'r ffordd y caiff ffoneg ei haddysgu. Nid yw ymarferwyr wedi cytuno pa agweddau i ymdrin â nhw ym mhob cyfnod, ac weithiau, maent yn defnyddio cynlluniau gwahanol. Mae hyn yn arwain at ddryswch a diffyg parhad yn nysgu'r plant. Maent hefyd yn methu darparu cyfleoedd ar gyfer arfer reolaidd i blant.

36 Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae newid mawr wedi digwydd mewn arfer wrth drefnu addysgu darllen mewn ysgolion. Yn y gorffennol, roedd llawer o blant yn darllen bob dydd i oedolyn. Erbyn hyn, caiff dulliau fel darllen ar y cyd, darllen mewn grŵp a darllen dan arweiniad eu defnyddio'n aml mewn ysgolion. Yn gyffredinol, dim ond ar gyfer plant y mae eu medrau darllen islaw'r lefel ddisgwyliedig y mae ysgolion yn defnyddio dulliau darllen unigol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r plant hyn yn elwa ar sesiynau darllen unigol rheolaidd iawn gydag oedolyn.

37 Mae dulliau darllen ar y cyd, darllen mewn grŵp a darllen dan arweiniad yn ffyrdd effeithiol o fodelu ac addysgu darllen ar gyfer y mwyafrif o blant. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, ni chaiff y sesiynau hyn eu cynnal yn ddigon aml. Hefyd, mewn rhai ysgolion lle na roddir digon o bwyslais ar helpu plant i gael ystod ddigon eang o strategaethau dadgodio, fel defnyddio eu gwybodaeth am ramadeg, darllen a gwirio ystyr cyffredinol y darn.

38 Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr:

- yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r ffyrdd o addysgu darllen ac maent yn sicrhau bod cydbwysedd effeithiol rhwng darparu cyfarwyddyd darllen ac arfer darllen ar gyfer plant;
- yn darparu sesiynau ffoneg byr bob dydd sy'n cynnwys plant yn weithredol;
- yn defnyddio dulliau darllen ar y cyd ar gyfer grwpiau a'r dosbarth cyfan yn rheolaidd, fel dangos y ffordd y mae darllenwyr effeithiol yn meddwl wrth iddynt ddarllen testun;
- yn defnyddio darllen dan arweiniad mewn grŵp o leiaf ddwywaith yr wythnos lle caiff plant o allu tebyg eu tywys trwy'r testun ac fe addysgir medrau darllen iddynt, er enghraifft, dangos sut i ymateb mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion;
- yn defnyddio darllen mewn grŵp yn rheolaidd i roi cyfleoedd i blant ymarfer eu medrau darllen;
- yn cysylltu llefaredd, darllen ac ysgrifennu fel bod plant yn deall bod y moddau iaith hyn yn gyd-ddibynnol; ac
- yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r awyr agored yn dda iawn i ddarparu cyd-destunau ysgogol ar gyfer gwaith llythrennedd.

## Asesu

39 Mae asesu cywir a dibynadwy yn helpu ymarferwyr i gynllunio i fodloni anghenion plant, sy'n ganolog i'w dysgu effeithiol. Er bod asesu wedi bod yn un o feysydd gwannaf gwaith ysgolion yn draddodiadol, mae arfer wedi gwella'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf PAEM, fe ddywedom fod

**"…tri chwarter o ysgolion yn dda neu'n well…roedd athrawon yn asesu'r cynnydd yr oedd disgyblion yn ei wneud tuag at eu targedau dysgu yn rheolaidd. Defnyddiodd athrawon ddeilliannau asesu i gynllunio gwaith ar y lefel gywir ar gyfer disgyblion o bob gallu…"**

40 Mewn arfer o ddydd i ddydd, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o ddulliau i asesu dysgu'r plant. Maent yn defnyddio eu harsylwadau ac yn rhyngweithio gyda phlant i helpu iddynt ganolbwyntio ar y modd y mae unigolion yn datblygu ar y continwwm dysgu. Yn gyffredinol, mae asesu dysgu'r plant yn yr amgylchedd awyr agored yn llai pwrpasol a rheolaidd na mewn gweithgareddau dan do.

41 Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr:

- yn casglu ystod o wybodaeth am asesu ac yn ei defnyddio'n fedrus i'w helpu i baratoi gweithgareddau sydd ar y lefel gywir ar gyfer cyfnod datblygu'r plant y maent yn gweithio gyda nhw;
- yn arsylwi plant yn ofalus yn yr amgylchedd dan do ac awyr agored er mwyn monitro eu dysgu a'u cyfnod datblygu;
- yn ymyrryd yn sensitif pan fydd angen i herio a symud y dysgu ymlaen, sy'n bwysig iawn wrth i blant chwarae ac yn ystod dysgu sy'n cael ei ddechrau gan blant;
- yn osgoi cofnodi popeth y mae plant yn ei wneud ond yn cynnal system sy'n berthnasol, yn bwrpasol a heb fod yn rhy feichus i staff; ac
- yn rhannu ac yn archwilio gwybodaeth am asesu gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb a sicrhau dealltwriaeth o ddeilliannau.

42 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn rhoi enghraifft o'r modd y mae gweithdrefnau asesu systematig yn bwysig wrth fonitro datblygiad medrau llythrennedd plant.

**Asesu llythrennedd yn systematig**

**Cefndir**

Ysgol gynradd fechan cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Ffridd y Llyn ger y Bala yng Ngwynedd. Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ac mae tua thri chwarter o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i lefel gyfatebol. Mae tua 4% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys plant rhwng pedair a saith oed. Mae tri ymarferwr yn cynnwys un athro ac un cynorthwyydd cymorth ystafell ddosbarth amser llawn ac un rhan-amser.

**Strategaeth**

Mae asesu yn ganolog i ddysgu'r plant yn yr ysgol hon. Mae'r gweithdrefnau asesu yn gynhwysfawr iawn ac yn cael eu defnyddio'n gyson gan bob ymarferwr. Mae'r athro dosbarth (sef y pennaeth hefyd) wedi datblygu dull systematig iawn ar gyfer asesu cyflawniadau disgyblion mewn llythrennedd. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod y plant yn y dosbarth hwn yn rhychwantu ystod eang o oedrannau, galluoedd a chyfnodau datblygu.

Bob wythnos, mae'n trefnu sesiwn ddarllen ffocysedig gyda phlant, ac mae hyn yn rhoi gwybodaeth iddi ynglŷn â pha mor dda y mae plant yn datblygu mewn agweddau penodol ar lythrennedd. Mae'n nodi'r meysydd penodol y mae angen i bob plentyn eu gwella o ran ffoneg, seiniau llythrennau a chyfuniadau a geiriau allweddol, ac ati. Caiff y wybodaeth hon ei sgriblan ar nodiadau 'post-it' a rhoddir y nodiadau ar un o'r tri bwrdd yn ôl lefel anghenion y plant.

Mae'r nodiadau yn llywio'r ffordd y cynllunnir gweithgareddau dilynol, fel sesiwn un i un ar gyfuniadau ffoneg gydag ymarferwr. Caiff cynnydd plant ei fonitro'n ofalus. Pan fydd anawsterau'n parhau, caiff y nodiadau 'post-it' eu symud i'r bwrdd nesaf. Mae hyn yn rhybuddio pob ymarferwr ynglŷn â phroblemau a'r ffaith fod angen sicrhau eu bod yn darparu cymorth ar gyfer plant. Os bydd problem yn parhau, symudir y nodyn 'post-it' i'r trydydd bwrdd a chymerir camau pellach a mwy ffurfiol. Caiff y nodiadau 'post-it' eu ffeilio yn ffolderi unigol plant pan fydd targedau wedi cael eu bodloni. Mae'r ffaith fod medrau llythrennedd plant yn cael eu monitro'n ofalus yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn methu.

Gall yr ymarferwr ddefnyddio ei hamser yn dda iawn gan ei bod yn sicrhau bod plant yn gwybod sut i weithio'n annibynnol a dod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain. Mae disgyblion hŷn yn y dosbarth yn gweithredu fel modelau rôl da ar gyfer eu cyfoedion iau sy'n galluogi'r ymarferwr i ddefnyddio ei hamser yn effeithiol i ganolbwyntio ar anghenion plant.

**Canlyniad**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae pob disgybl wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg ar gyfer disgyblion saith oed, ac mae dros 50% wedi cyrraedd y lefel 3 uwch.

43 Mae helpu plant i ddeall eu potensial a'u galluoedd eu hunain yn egwyddor bwysig o'r Cyfnod Sylfaen. Yn gynyddol, mae llawer o ysgolion yn cynnwys plant mwy trwy ddefnyddio technegau fel asesu ar gyfer dysgu. Egwyddor allweddol o'r dechneg hon yw y dylai plant wybod ble maen nhw, ble mae angen iddynt fynd a'r ffordd orau o gyrraedd yno. Mae'r math hwn o asesu ffurfiannol yn canolbwyntio ar gyflawniadau'r dysgwr a'r ffyrdd y gall ef neu hi symud ymlaen. Mae asesu ar gyfer dysgu yn gyfrwng allweddol ar gyfer ymarferwyr wrth gefnogi datblygiad plant a'u cynnwys mewn gosod targedau i wella eu perfformiad, fel 'Rwy'n dysgu defnyddio atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg'. Er bod defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn datblygu mewn llawer o ysgolion, mae lle i wella.

## Cynllunio’r cwricwlwm a’r amgylchedd dysgu

44 Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi’i gynllunio i ddarparu cwricwlwm ymarferol ac integredig cyfannol* sy’n canolbwyntio ar y plentyn. Ar wahân i’r meysydd dysgu, mae’r ddarpariaeth hefyd yn cynnwys medrau cyfathrebu, TGCh, rhif a meddwl ac mae’n rhaid iddynt ategu ei gilydd a chydweithio i gefnogi datblygiad plant a’u medrau. Yn y Cyfnod Sylfaen, dylai fod cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dechrau gan blant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan ymarferwyr. Dengys tystiolaeth ymchwil ac arolygu y gall chwarae a dysgu gweithredol fod yn llwyddiannus wrth gymell plant i ddysgu a chyflawni mwy, ond rhaid i athrawon gynllunio’n benodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd hefyd. Mae defnyddio’r amgylchedd awyr agored ar gyfer dysgu yn rhan annatod o’r Cyfnod Sylfaen a dulliau chwarae a dysgu gweithredol. Mae angen i gwricwlwm arbrofol, sy’n seiliedig ar chwarae, gael ei gynllunio’n dda a’i drefnu’n dda. Rhaid i weithgareddau fod yn bwrpasol os yw plant wir am ennill medrau a gwybodaeth o’r profiadau hyn a gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

### Cynllunio’r cwricwlwm

45 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn diwygio eu cynllunio cwricwlwm i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed. Pan fydd cynlluniau da ar waith ar gyfer pynciau’r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae llawer o ysgolion wedi addasu’r rhain yn effeithiol yn unol â gofynion y meysydd dysgu. Fodd bynnag, mae’r mwyafrif o ysgolion wedi bod yn fwy llwyddiannus yn addasu cynnwys cynllunio’r cwricwlwm, sef ‘beth’ maent yn ei gyflwyno yn hytrach na ‘sut’ maent yn ei gyflwyno. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr bob amser:

- wedi sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu sy’n cael ei arwain gan ymarferwyr a dysgu sy’n cael ei ddechrau gan blant;
- wedi cynllunio cwricwlwm sy’n gynyddol heriol ac yn seiliedig ar chwarae; ac
- wedi gwneud y defnydd gorau o’r awyr agored i wella dysgu’r plant.

46 Mae plant yn cyflawni safonau uwch pan fydd cynlluniau yn amlinellu bwriadau clir ar gyfer gweithgareddau sy’n cael eu dechrau gan blant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan ymarferwyr, ac fe gaiff y rhain eu cyflwyno’n llwyddiannus. Mae plant yn cael mwy o wybodaeth, dealltwriaeth a medrau pan fyddant yn adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud ac maent yn ymgysylltu’n llawn ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mewn rhai ysgolion, ni chaiff yr agweddau pwysig hyn eu deall na’u datblygu’n dda yn ymarferol. Anaml y rhoddir digon o sylw i’r ddarpariaeth ar gyfer herio ac ymestyn plant mwy abl a dawnus.

47 Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn darparu cwricwlwm cynlluniedig a chytbwys sy’n rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan yn greadigol yn eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, ar ddechrau’r broses gynllunio, mae lleiafrif o ysgolion yn cynnwys plant yn dda iawn wrth benderfynu ar destunau neu themâu gwaith ar gyfer y tymor nesaf. Mae’r mewnbwn hwn yn helpu ymarferwyr i ddeall a darparu ar gyfer diddordebau plant. Yn yr ysgolion hyn, ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu

* Esbonnir y termau sydd wedi’u nodi â seren yn yr eirfa.

dechrau gan blant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. O ddydd i ddydd, ceir cynllunio ar gyfer darpariaeth barhaus a gwell yn ogystal â thasgau ffocysedig*.

48 Mae'r astudiaeth achos sy'n dilyn yn rhoi enghraifft dda iawn o'r modd y mae ymarferwyr yn cynnwys plant wrth benderfynu ar y testunau a'r gwaith y byddant yn ei wneud.

**Ystyried diddordebau ac anghenion dysgu plant**

**Cefndir**

Mae Ysgol Fabanod Ton Pentre yng nghanol y pentref yng Nghwm Rhondda Fawr. Mae tua 26% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er bod gan bob dosbarth ei hystafell sylfaen ei hun, mae mannau a rennir ar gyfer dysgu ar draws y gwahanol grwpiau blwyddyn. Ym mhob ystafell ddosbarth, gall plant fanteisio'n annibynnol ar amgylchedd awyr agored atyniadol a datblygedig iawn sy'n cynnwys ardal Ysgol Goedwig.

**Strategaeth**

Ar ddiwedd pob tymor, mae ymarferwyr yn gofyn i blant am eu syniadau ynglŷn â'r gwaith yr hoffent ei wneud y tymor canlynol. Yn ystod tymor y gwanwyn, y testun a ddewiswyd gan blant ac ymarferwyr yw 'Y Tu Hwnt i'r Cwpwrdd Dillad' gan fod y plant yn gyffrous iawn ac yn dangos llawer o ddiddordeb yn stori Narnia. Gyda'i gilydd, maent yn cynllunio'r mathau o bethau y maent am eu cynnwys, fel man chwarae rôl Narnia ac ystafell ysgrifennu Llyn wedi Rhewi.

I gefnogi addysgu'r Cyfnod Sylfaen, mae ymarferwyr wedi disodli eu cynlluniau gwaith sy'n cael eu harwain gan gynnwys gydag 'Unedau Hwyl' sy'n seiliedig ar fedrau ar gyfer pob maes dysgu. Mae'r 'Unedau Hwyl' yn nodi medrau craidd pob un o feysydd y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal ag ysgolion medrau penodol ar gyfer medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Mae'r dull hwn yn cynnwys cynllunio ar gyfer darpariaeth barhaus a gwell. Mae cynlluniau yn cynnwys bwriadau dysgu penodol iawn ar gyfer plant a ffocws clir ar ddatblygu medrau. Er bod y cynlluniau wedi'u strwythuro, maent yn ddigon hyblyg i ymarferwyr allu eu haddasu'n rhwydd i fodloni diddordebau ac anghenion dysgu'r plant. Mae sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddechrau eu dysgu eu hunain yn ganolog i ymagwedd yr ysgol at y Cyfnod Sylfaen.

Mae ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu yn barthau dysgu ac maent yn cynnwys adnoddau ac arddangosiadau bywiog a deniadol, sy'n cynnwys mannau chwarae rôl cyffrous, fel Palas y Frenhines Rew. Mae plant yn symud yn rhwydd rhwng y mannau hyn ac fe gânt fynd allan i'r awyr agored yn annibynnol.

**Canlyniad**

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o ddiddordebau plant yn y cyfnod

[*] Esbonnir y termau hyn yn yr eirfa.

cynllunio cychwynnol ac maent yn darparu'n eithriadol o dda ar gyfer plant er mwyn iddynt ddilyn eu diddordebau wrth i'r gwaith ddatblygu. Maent yn rhoi llawer o gyfleoedd da i blant fod yn annibynnol yn eu dysgu. Gan ddefnyddio eu system gynllunio gynhwysfawr a thrylwyr, maent yn darparu lefel gytbwys o weithgareddau sy'n cael eu dechrau gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr, sy'n hyblyg o ran bodloni anghenion dysgu'r plant. Mewn arolygiad diweddar, barnodd arolygwyr fod bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cyflawni safonau uchel.

49 Mae'r cynlluniau cwricwlwm gorau yn cynnwys bwriadau clir ar gyfer dysgu'r plant, ac yn y tymor byr, rhaid iddynt fod yn ddigon hyblyg i addasu yn unol â newid mewn amgylchiadau er mwyn elwa ar ddiddordebau'r plant. Mae'n hanfodol sicrhau cydbwysedd yn ofalus rhwng cynllunio gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan blant a phrofiadau dysgu sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr os yw'r plant am wneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen.

50 Mae sawl rheswm pam mae ysgolion yn ei chael yn anodd addasu yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen neu wedi bod yn araf yn diwygio eu cynlluniau. Mewn rhai ysgolion, y rheswm am hyn yw nad yw ymarferwyr yn ddigon clir ynglŷn â sut i sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu sy'n cael ei ddechrau gan blant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Mewn rhai ysgolion, mae diffyg cynllunio ar gyfer y meysydd dysgu ac nid yw'r cynlluniau yn ddigon penodol o ran dangos y deilliannau disgwyliedig ar gyfer dysgu. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae cynllunio'r cwricwlwm wedi dod yn strwythuredig a manwl iawn yn y rhan fwyaf o ysgolion. Nid oes gan bob ymarferwr yr hyder i addasu'r cynlluniau manwl hyn neu nid ydynt yn argyhoeddedig y dylent ddiwygio eu cynlluniau yn hyblyg i fodloni diddordebau plant.

51 Mae heriau penodol hefyd wrth gynllunio ar gyfer cwricwlwm yn seiliedig ar chwarae yn y cyfnod hwn gan fod yn rhaid i weithgareddau fod yn ddigon heriol ar gyfer plant mwy abl a phlant hŷn. Mae lle mewn llawer o ysgolion i wella'r cynllunio i sicrhau bod gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae yn fwy heriol a bod y bwriadau ar gyfer y dysgu a ddylai ddigwydd yn glir. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer dilyniant ac mae plant yn ailadrodd profiadau dysgu yn ddiangen o ganlyniad, pan ddylent fod yn cael eu hymestyn ymhellach.

52 Mae'r cynllunio ar gyfer defnyddio dysgu yn yr awyr agored yn aml yn dda ar gyfer datblygiad corfforol plant a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd, ond fel arfer, nid yw cystal ar gyfer datblygu medrau llythrennedd plant a'u datblygiad creadigol. Mewn rhai ysgolion, ychydig iawn o werth a roddir weithiau i'r gweithgareddau darllen ac ysgrifennu y mae plant yn eu gwneud yn yr awyr agored. Yn yr achosion hyn, nid yw ymarferwyr wedi ystyried yn ddigon gofalus sut y dylai'r gweithgaredd yn yr awyr agored gyfrannu i ddysgu a medrau llythrennedd plant.

53 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwyafrif o ysgolion wedi gwella'r ffordd y maent yn datblygu medrau plant. Er bod ysgolion cynradd bob amser wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, mae'r ffocws cryfaf wedi bod ar addysgu Cymraeg a Saesneg fel pynciau. Fodd bynnag, nid yw llythrennedd yn ymwneud â Chymraeg neu Saesneg fel un pwnc yn unig; grŵp o gymwyseddau

ydyw, y mae plant yn eu caffael yn y cwricwlwm cyfan. Mewn lleiafrif o ysgolion lle ceir arfer orau, mae’r cynllunio yn sicrhau bod plant yn caffael, yn datblygu, yn ymarfer, yn cymhwyso ac yn mireinio eu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh ar draws pob maes dysgu ac mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae’r cynlluniau mwyaf effeithiol yn nodi’r medrau penodol y bydd plant yn eu datblygu ac maent yn sicrhau bod dilyniant clir yn eu dysgu, sy’n helpu iddynt gyflawni safonau uchel. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw’r cynllunio ar gyfer y medrau hyn wedi’i ddatblygu digon ac mewn rhai ysgolion, mae’n annigonol.

54 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gan blant fedrau llythrennedd gwan sy’n effeithio ar eu gallu i ddeall a chyflawni mewn meysydd eraill.

55 Mae’r mwyafrif o ysgolion wedi adeiladu ar gynlluniau presennol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd plant. Yn yr arfer orau, mae ysgolion wedi addasu’r cynlluniau hyn yn ofalus i gynnal addysgu medrau ar gyfer darllen ac ysgrifennu yn uniongyrchol yn ogystal â darparu rhaglen gytbwys o weithgareddau iaith yn seiliedig ar chwarae, gan ddefnyddio’r amgylchedd dan do a’r amgylchedd awyr agored. Mae ysgolion effeithiol yn gweld iaith yn gyfannol: mae llefaredd, darllen ac ysgrifennu yn cefnogi ac yn gwella datblygiad iaith yn gyffredinol. Lle mae ysgolion yn gwneud hyn orau, maent yn datblygu iaith mewn perthynas â’r cyd-destun y caiff ei defnyddio ynddo ac maent yn mynd ati i ymgysylltu â phlant. Yn yr ysgolion hyn, caiff safonau eu cynnal a’u gwella gan fod ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i roi sylw da i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu plant.

56 At ei gilydd, fodd bynnag, nid oedd ystod ysgrifennu’r plant a welwyd yn ystod yr arolwg hwn yn adlewyrchu’r cyd-destunau cyfoethocach ar gyfer ysgrifennu a gyflwynir gan y Cyfnod Sylfaen. Nid yw llawer o ysgolion wedi mynd i’r afael o hyd â’r gwendidau mewn addysgu ysgrifennu yr ydym wedi sôn amdanynt yn y gorffennol. Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, mae tasgau ysgrifennu yn parhau i fod yn fformiwläig, yn ailadroddus ac nid ydynt yn ddigon heriol. Parheir i wneud defnydd gormodol o ffurfiau ysgrifennu fel ‘newyddion’, sy’n cyfyngu gwreiddioldeb a dawn greadigol, ac ni roddir digon o gyfleoedd i blant ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau a genres. Yn gyffredinol, mewn mwyafrif o ysgolion, ni fynnir digon o ymdrech gan blant wrth ysgrifennu. Mae’r gorddefnydd o daflenni gwaith masnachol a thaflenni gwaith wedi’u llunio gan athrawon yn lleihau’r cyfleoedd i blant ysgrifennu’n annibynnol ac yn estynedig oherwydd yn aml, dim ond un gair neu frawddeg fer y gofynnir iddynt ysgrifennu.

## Yr amgylchedd dysgu

57 Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio’r amgylchedd dan do yn fwy creadigol i ddarparu cwricwlwm mwy arbrofol ar gyfer plant. Mae llawer o ymarferwyr wedi datblygu mannau neu barthau dysgu yn eu dosbarthiadau i greu darpariaeth well ar gyfer chwarae rôl. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae’r mannau dysgu hyn yn galluogi plant i wneud dewisiadau annibynnol. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes cyfatebiaeth ddigon da rhwng anghenion plant a’r gweithgareddau awyr agored a ddarperir i sicrhau bod y plant yn dysgu’n dda. Mewn lleiafrif o ysgolion, lle nad oes unrhyw ddarpariaeth awyr agored, neu ychydig bach ohono, mae’r cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth plant yn gyfyngedig.

58 Yn gynyddol, mae ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd dysgu dan do mewn ffordd sy'n golygu bod plant yn gallu defnyddio adnoddau'n haws, a hyd yn oed defnyddio offer TGCh i gefnogi eu chwarae. Gall plant gael yr hyn sydd ei angen arnynt heb ofyn am gymorth bob amser, sy'n eu gwneud yn llai dibynnol ar oedolion. Mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae dosbarthiadau yn aml yn rhannu mannau dysgu lle mae'r adeilad yn addas neu wedi cael ei addasu at y diben hwn. Mae plant o wahanol oedrannau yn symud yn rhwydd o un man i'r llall a gall ymarferwyr roi'r plant mewn grwpiau ar gyfer sesiynau addysgu ffocysedig yn unol â chyfnod eu datblygiad. Mae'r dull hwn yn galluogi ymarferwyr i rannu adnoddau a darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ac amrywiol sy'n bodloni anghenion dysgu plant.

59 Mae llawer o ysgolion hefyd yn creu darpariaeth well ar gyfer chwarae rôl, sy'n aml yn gysylltiedig â thema neu destun y dosbarth. Mewn llawer o ysgolion, mae mannau chwarae rôl yn gyffrous, yn ysgogol ac yn cynnwys adnoddau da, ac mae hyn yn aml yn darparu cyfleoedd da i blant actio ac ymarfer sefyllfaoedd newydd a chyfarwydd. Gall chwarae rôl, yn benodol, wneud cyfraniad gwerthfawr i fedrau iaith a llythrennedd plant, yn enwedig medrau llefaredd. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae'r man chwarae rôl wedi'i gosod fel ystafell newyddion sy'n cynnwys recordydd tâp a microffon, deunyddiau ysgrifennu a chamera. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi plant i weithio'n ddychmygus ac ar y cyd a gwella eu medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu.

60 Gall yr amgylchedd awyr agored gynnig dwywaith yn fwy o brofiadau dysgu. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored yn gynyddol yn dda ac yn darparu adnoddau diddorol sy'n gwella'r ddarpariaeth dan do. Pan fo ysgolion yn cynnig rhesymau dilys a diddorol dros ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored ar gyfer gweithgareddau llythrennedd, mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol i fedrau darllen ac ysgrifennu plant ac yn ychwanegu dimensiwn at eu dysgu na ellir ei gael o weithio yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws pob ysgol.

61 Mae'r astudiaeth achos sy'n dilyn yn dangos sut y defnyddiodd ymarferwyr mewn un ysgol yr amgylchedd awyr agored i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd plant.

**Defnyddio'r amgylchedd awyr agored ar gyfer gweithgareddau llefaredd, darllen ac ysgrifennu**

Ysgol gynradd ganolig ei maint ym mhentref Meisgyn yng Nghwm Cynon yw Ysgol Gynradd Pengeulan. Mae tua 55% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r man awyr agored yn gyfyngedig iawn ac wedi'i wasgaru dros dair lefel. Ni all plant fynd yn annibynnol neu'n uniongyrchol i'r awyr agored o'u hystafell ddosbarth. Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynllunio i ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn rheolaidd gan eu bod yn cydnabod y manteision i ddysgu'r plant.

**Strategaeth**

Yn yr ysgol hon, roedd plant yn mwynhau stori'r Tri Bwch Gafr (Three Billy Goats Gruff). Fel rhan o'u gwaith, fe wnaethant greu posteri, gwneud mygydau ac

ysgrifennu sgript drama o'r stori. Defnyddiodd ymarferwyr y man bach glaswelltog â dec yn yr awyr agored ar gyfer dramateiddio'r stori, ac fe wnaethant osod y posteri 'yn eisiau' yr oedd y plant wedi'u gwneud. Gan wisgo'r mygydau, cymerodd y plant eu tro i actio'r stori. Pan oedd un grŵp yn actio, y plant eraill oedd y gynulleidfa. Roeddent eisoes wedi paratoi taflenni asesu cyfoedion a oedd yn cynnwys meini prawf llwyddiant, a fyddai'n helpu iddynt farnu ansawdd y ddrama. Fe wnaethant arfarnu pa mor dda yr oedd plant yn ymgymryd â rolau gwahanol gymeriadau, darllen gwybodaeth yn gywir, siarad yn glir a chydweithio â'i gilydd.

Roedd yr amgylchedd awyr agored yn lleoliad delfrydol ar gyfer y ddrama a chyda'r meinciau, daeth yn theatr naturiol. Gallai'r 'geifr' gerdded yn effeithiol ar y dec ac fe guddiodd yr 'ellyll' y tu ôl i wal isel.

**Canlyniad**

Daethpwyd â'r gwaith yr oedd y plant wedi'i wneud dros gyfnod ar y stori, ysgrifennu'r posteri a pharatoi'r sgript, i gyd at ei gilydd yn y gweithgaredd gwerth chweil hwn. Fe wnaeth defnyddio'r awyr agored ychwanegu dimensiwn perthnasol, diddorol a difyr at ddysgu'r plant. Dysgodd y plant sut i addasu'r ffordd yr oeddent yn siarad yn unol â gofynion cynulleidfa, codi eu lleisiau a threfnu eu hysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau at wahanol ddibenion. Fe wnaeth y gweithgaredd hefyd eu helpu i ddeall y cysylltiadau rhwng darllen ac ysgrifennu.

62 Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw gweithgareddau awyr agored yn cyfrannu digon i ddysgu plant neu'n sicrhau eu bod yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau yn raddol. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad yw gweithgareddau yn cynnwys digon o ddiben neu werth ac nid ydynt yn ddigon heriol i blant wneud cynnydd gwell. Mewn rhai ysgolion, nid yw ymarferwyr yn argyhoeddedig ynglŷn â gwerth dysgu yn yr awyr agored ac nid ydynt yn ei ddefnyddio digon.

63 Mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth awyr agored yn gyfyngedig, mae ymarferwyr yn aml yn gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r rhain ac yn sicrhau eu bod hefyd yn defnyddio ystod o gyfleusterau awyr agored eraill, fel y parc lleol. Mewn rhai ysgolion, ni all plant fanteisio ar yr awyr agored o gwbl oherwydd cyfyngiadau safle'r ysgol. Mewn rhai ysgolion, gall darpariaeth awyr agored fod yn bosibl, ond nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu ei photensial.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth a gwella ansawdd

64 Mae arweinyddiaeth o ansawdd da yn hanfodol i berfformiad ysgolion a rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn effeithiol. Mae tystiolaeth ymchwil ac arolygu yn dangos yn gyson bod arweinyddiaeth ysgol yn ail yn unig i addysgu ystafell ddosbarth fel rhywbeth sy'n cael dylanwad pwysig ar ddysgu plant.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

65 Mae arweinyddiaeth gref a dylanwadol gan y pennaeth, rheolaeth effeithiol gan reolwr canol gwybodus, gwaith tîm da ymhlith ymarferwyr gwybodus ac ymdrech ddygn i godi safonau, yn allweddol ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus.

66 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn deall egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen ac maent wedi rhoi ei arfer ar waith yn dda. Yn benodol, maent yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r Cyfnod Sylfaen i godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd. Maent wedi goresgyn unrhyw rwystrau cynhenid yng nghynllun adeilad yr ysgol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth awyr agored. Mae'r arweinwyr hyn hefyd wedi canolbwyntio'n dda ar gynllunio ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant chwech a saith oed a'r angen am drosglwyddo effeithiol i gyfnod allweddol 2.

67 Yn yr arfer orau, mae arweinwyr wedi sicrhau bod:

- ymdrech ddygn i godi safonau, gyda blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i lythrennedd;
- pwyslais brwd ar gyfleu egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen fel bod pob aelod o gymuned yr ysgol, yn cynnwys llywodraethwyr a rhieni, yn deall ei fanteision;
- rheolwr canol gwybodus sy'n cydlynu ac yn arwain gwaith y Cyfnod Sylfaen;
- ffocws ar adolygu a diweddaru addysgeg addysgu, darparu hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt;
- sylw'n cael ei roi i ddatblygu'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored i gefnogi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;
- datblygu darpariaeth y cwricwlwm ac asesu i helpu ymarferwyr i addasu a datblygu arfer i fodloni anghenion dysgu plant yn y ffordd orau;
- paratoi ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 2 yn ogystal â throsglwyddo plant o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2; a
- monitro ac arfarnu safonau a darpariaeth yn systematig a rheolaidd i sicrhau bod plant yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

68 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos effaith monitro ac arfarnu effeithiol ar safonau.

**Effaith monitro ac arfarnu effeithiol gan yr arweinydd pwnc ar gyfer Saesneg**

Mae Ysgol Gynradd Baglan mewn ardal breswyl o boblogaeth niferus yn nhref Baglan, sy'n rhan o Awdurdod Unedol Castell-nedd Port Talbot. Mae 180 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 27% o'r rhain yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth**

Roedd yr arweinydd pwnc Saesneg am sicrhau y byddai cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn gwella safonau ym medrau llythrennedd plant a'u hagwedd at ddysgu. Gan ddefnyddio adroddiad Estyn ar **'Arfer Orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed'**, cytunodd ar feini prawf clir ar gyfer arfarnu safonau a darpariaeth gyda'i chydweithwyr.

Arweiniodd sesiynau hyfforddi ar arfer dda i'r staff cyfan fel bod pob ymarferwr, yn cynnwys staff cymorth, yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth dda a safonau da yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r arweinydd Saesneg hwn hefyd wedi dangos gwersi ac wedi hyfforddi staff. Fe wnaeth trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol nodi anghenion hyfforddi ymarferwyr. Cefnogodd cymorth mewnol a chyrsiau allanol eu datblygiad proffesiynol.

Roedd gan yr ysgol raglen o adolygiadau dosbarth o gynllunio a darpariaeth. Fe wnaeth ymarferwyr gynnal cofnodion gofalus o gynnydd plant trwy eu harsylwadau a'u hasesiadau hanner tymor. Ar ôl pob adolygiad, cyfarfu'r arweinydd pwnc Saesneg â'r ymarferwyr i archwilio deilliannau dysgu a chyflawniadau'r plant. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, fe wnaethant nodi'r hyn a weithiodd yn dda a chytuno ar welliannau. Daeth cyflwyno strategaethau ac adnoddau newydd ar gyfer addysgu llythrennedd yn ffocws ar gyfer monitro ac arfarnu gwaith y tro nesaf.

**Canlyniad**

Ceir arfer a darpariaeth gyson dda ar draws y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyfrannu'n dda at fedrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu'r plant. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn mynd yn llai. Gall ymarferwyr nodi gwelliannau yn ymddygiad plant a'u hymgysylltiad mewn dysgu.

69 Mae lleiafrif o ysgolion wedi bod yn llai llwyddiannus yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw arweinwyr a/neu ymarferwyr yn deall ei egwyddorion a'i arfer. Mae hyn yn arwain at y diffygion mewn dysgu ac addysgu a chynllunio ac asesu a esboniwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mewn rhai ysgolion, nid yw uwch reolwyr yn gwybod digon am y Cyfnod Sylfaen neu nid ydynt yn argyhoeddedig ynglŷn â'i werth addysgol ac nid ydynt yn rhoi blaenoriaeth uchel iddo.

70 Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol mewn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol wedi cefnogi ysgolion yn dda ac mae ysgolion wedi elwa ar ystod o raglenni hyfforddi, deunyddiau cymorth a gwaith ymgynghorol swyddogion awdurdodau. Mae hyn wedi helpu'r rhan fwyaf o ymarferwyr i ddatblygu eu medrau a'u harfer.

71 Mae llawer o awdurdodau wedi defnyddio gwybodaeth am ysgolion yn dda i dargedu hyfforddiant a chymorth i fodloni anghenion ymarferwyr unigol. Mae ymarferwyr medrus yn aml yn cyflwyno hyfforddiant ac yn cynorthwyo cydweithwyr mewn ysgolion. Mae llawer o awdurdodau hefyd wedi cefnogi ysgolion i rannu arfer dda a datblygu cymunedau dysgu proffesiynol er mwyn i ymarferwyr allu dadansoddi a

gwella eu gwaith. Mae rhai awdurdodau eisoes wedi darparu hyfforddiant ar gyfer ysgolion ar drosglwyddo plant o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2. Er enghraifft, yn awdurdod lleol Sir y Fflint, mae hyn wedi arwain at raglen hyfforddi benodol wedi'i hanelu at ymarferwyr sy'n addysgu ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 3, er mwyn cynnal cynnydd plant a sicrhau trosglwyddo esmwyth wrth iddynt symud o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2.

72 Mewn rhai achosion, dywed ymarferwyr fod hyfforddiant neu gyngor yn anghyson neu'n aneglur ac mae hyn wedi golygu eu bod yn ansicr ynglŷn â ffyrdd o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

## Gwella ansawdd

73 Dros y deng mlynedd diwethaf, mae ansawdd hunanarfarnu wedi gwella'n fawr. Roedd hunanarfarnu yn dda neu'n well yn y mwyafrif o ysgolion a arolygwyd gennym yn 2009-2010. Mae ethos sefydledig o hunanarfarnu, yn defnyddio ystod o dystiolaeth, wedi cefnogi'r broses o fonitro ac arfarnu rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn y mwyafrif o ysgolion. Pan fo'r gweithdrefnau yn effeithiol, mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu i sicrhau proses gylchol reolaidd o gynllunio gwelliant. Mae'r cynlluniau eu hunain yn cynnwys blaenoriaethau, targedau a graddfeydd amser a nodwyd yn glir. Mae'r cynlluniau yn nodi deilliannau clir, sy'n gysylltiedig â gwelliannau mewn safonau ac ansawdd i fesur cynnydd.

74 Mae ysgolion arfer orau yn cynnal ffocws cryf ar:

- dystiolaeth uniongyrchol am ansawdd dysgu ac addysgu, fel arfarnu effaith dysgu yn yr awyr agored ar safonau plant yn y saith maes dysgu;
- dadansoddi'r data sydd ar gael, yn cynnwys gwybodaeth o asesiadau athrawon o gynnydd plant a deilliannau o brofion safonol, fel profion darllen;
- arfarnu cynllunio ac asesu'r cwricwlwm er mwyn bod yn hyderus bod cwricwlwm priodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sy'n eang, yn gytbwys, yn berthnasol ac wedi'i addasu i fodloni anghenion datblygiadol pob plentyn;
- dadansoddi effaith hyfforddiant i ymarferwyr ar newidiadau mewn arfer mewn trefniadaeth ystafell ddosbarth ac addysgeg;
- ystyried safbwyntiau rhieni a phlant i feithrin a hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol gyda'u cartref a chael adborth ar eu hamgyffrediadau; a
- sicrhau cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd.

75 Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r arfarnu yn ddigon trylwyr ac mae'n aml yn dibynnu gormod ar dystiolaeth storïol. Nid yw arweinwyr yn arfarnu effaith hyfforddiant ymarferwyr ar gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

76 Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, mae gwendidau mewn cynllunio gwelliant ysgolion. Mae'r prif wendidau yn cynnwys methu blaenoriaethu rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a defnydd annigonol, os o gwbl, o feini prawf llwyddiant i fesur cynnydd. Nid yw digon o ysgolion yn defnyddio meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â safonau ac ansawdd i farnu p'un a yw'r camau y maent wedi'u cymryd wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi arwain at welliannau mesuradwy yn nysgu'r plant. Mae cynlluniau gwella yn gyfrwng pwysig ar gyfer helpu ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth a chodi safonau. Mae'r cynlluniau hyn yn faes pwysig ar gyfer gwella.

## Atodiad 1

### Sail y Dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau arolygwyr â sampl gynrychioliadol o ddau ddeg tri ysgol gynradd ledled Cymru. Yn ystod ymweliadau ag ysgolion, ymgymerodd arolygwyr ag ystod o weithgareddau i gasglu tystiolaeth, yn cynnwys cyfweliadau ag uwch arweinwyr ac ymarferwyr, arsylwi sesiynau llythrennedd a chraffu ar samplau o waith ysgrifenedig plant a dogfennaeth yr ysgol;
- trafodaethau gydag ymgynghorwyr awdurdodau lleol mewn dau awdurdod ac adroddiadau arolygu ar un ar ddeg awdurdod lleol;
- gwybodaeth o 156 o ysgolion a arolygwyd rhwng Medi 2010 ac Ebrill 2011; ac
- adolygiad o ystod o lenyddiaeth berthnasol sydd wedi'i chynnwys isod.

**Cyhoeddiadau Estyn**

Arfer Orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed (2008) Estyn

Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ddysgu ac addysgu – Adroddiad interim (2010) Estyn

Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar (2007) Estyn

Dysgu yn yr awyr agored i blant yn y Cyfnod Sylfaen (2011) Estyn

Codi Safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd (2003) Estyn/ACCAC/LlC

Codi Safonau Ysgrifennu mewn Ysgolion Cynradd, Papur Trafod (2000) Estyn

**Cyhoeddiadau ac ymchwil arall**

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (2008) Llywodraeth Cymru

Improving Achievement in English Language in Primary and Secondary Schools (2003) HMIE Scotland

Independent Review of the Teaching of Early Reading: Final Report. (2006) London: Department for Education and Skills. Rose, J.

Learning from interactive story readings (2001) Early Years, 21**,** 97-105 Campbell R.
Literature search on improving boys' writing (2005) Caroline Daly i Ofsted

Chwarae/Dysgu Gweithredol – Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed (2008) Llywodraeth Cymru

Play in the Primary Curriculum (1994), golygwyd gan N Hall a L Abbott

Play – The Key to Young Children's Learning British Association for Early Childhood Education

Primary Writing (2000) Dominic Wyse Open University

Raising the Standard of Boys' Achievement in Literacy (2001) Scottish Council for Research in Education

Reading by six How the best schools do it (2010) Ofsted

Reading for purpose and pleasure:  An evaluation of the teaching of reading in primary schools (2004) Ofsted

Addysgeg Dysgu ac Addysgu (2008) Llywodraeth Cymru

The Excellence of Play (2007) J R Moyles

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant (2007) Llywodraeth Cymru

Writing is Primary - Action research on the teaching of writing in primary schools (2009) Richard Ings

Young People's Writing:  Attitudes, behaviour and the role of technology (2009) Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol

## Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer hunanarfarnu i hyrwyddo gwelliant

Cynlluniwyd y cwestiynau dilynol i gynorthwyo arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr wrth iddynt adolygu meysydd gwaith a hyrwyddo gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen.

**Safonau**

**A yw plant yn gallu:**

- adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus, ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a datblygu medrau newydd mewn ystod o gyd-destunau;
- cymryd rhan yn greadigol yn eu dysgu eu hunain a rhoi eu syniadau eu hunain ar waith;
- profi dysgu uniongyrchol mewn ffyrdd dychmygus, ysgogol a heriol yn yr amgylchedd dan do ac yn yr amgylchedd awyr agored fel ei gilydd;
- gweithredu'n annibynnol, gan weithiau dechrau ac arwain gweithgareddau;
- caffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio eu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y saith maes dysgu;
- datblygu'n raddol ac ennill annibyniaeth yn eu medrau llythrennedd; a
- myfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu?

**Addysgu ac asesu**

**A yw ymarferwyr:**

- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniadau plant ar draws y saith maes dysgu;
- yn meddu ar wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gysylltiedig â darparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen;
- yn defnyddio cyfleoedd ar gyfer dysgu, i gynnwys dulliau chwarae a dysgu gweithredol, sy'n ystyried yr hyn y mae plant eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, eu diddordebau a'u dealltwriaeth;
- yn cydweithio'n agos i gefnogi anghenion dysgu plant, er enghraifft, wrth gynllunio a rhannu gwybodaeth am asesu;
- yn helpu plant i ddefnyddio strategaethau 'dysgu i ddysgu' a datblygu annibyniaeth plant;
- yn defnyddio holi a thrafod yn dda, sy'n symbylu plant i feddwl am syniadau drostynt eu hunain;
- yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddarllen ac ysgrifennu ac yn dilyn y dulliau arfer orau a nodwyd yn yr adroddiad hwn;
- yn parhau i addysgu medrau llythrennedd yn eglur ac yn rheolaidd trwy ddangos, esbonio a rhoi cyfleoedd i blant ymarfer a datblygu eu medrau mewn ystod eang o gyd-destunau;
- yn cynnal dysgu'r plant trwy ddulliau fel darllen ac ysgrifennu ar y cyd a than arweiniad; ac

- yn monitro datblygiad a chynnydd plant yn ofalus, yn defnyddio gwybodaeth am asesu i lywio'r cynllunio o ddydd i ddydd ac yn helpu plant i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a sut y gallant wella?

**Cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu**

**A yw ymarferwyr yn gwneud yn siŵr:**

- bod cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan blant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr;
- bod ymgynghori rheolaidd gyda phlant ynglŷn â'u profiadau dysgu fel bod eu syniadau a'u diddordebau yn dylanwadu ar y ddarpariaeth;
- bod plant yn gallu bod yn annibynnol a gwneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu;
- eu bod yn cynllunio ar gyfer defnyddio'r amgylchedd dysgu dan do a'r amgylchedd dysgu awyr agored yn effeithiol;
- bod cynlluniau yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol plant ac yn sicrhau dilyniant i'r cyfnod dysgu nesaf;
- bod cynlluniau ar gyfer datblygu medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhifedd yn digwydd ar draws pob maes dysgu a'u bod yn ddigon penodol i sicrhau dilyniant yn nysgu'r plant;
- bod gwaith yn cael ei weddu'n dda i anghenion dysgu'r plant ac yn herio'r plant mwy abl;
- bod cynlluniau ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn integreiddio dysgu ac addysgu lleferedd, darllen ac ysgrifennu, eu bod yn cynnwys amcanion addysgu clir a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau penodol y dylai plant eu hennill; a
- bod tasgau a gweithgareddau ysgrifennu yn ddiddorol, yn amrywiol ac yn berthnasol, eu bod yn gofyn am ddigon o ymdrech wrth ysgrifennu ac yn galluogi plant i ddechrau ysgrifennu'n estynedig?

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

**A yw arweinwyr a rheolwyr:**

- yn deall ac yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus a'i fod yn cyfrannu at godi safonau;
- yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod dysgu ac addysgu llythrennedd cystal ag y gallant fod;
- wedi sicrhau bod ganddynt ymarferwr dynodedig sy'n arwain, yn cynghori, yn cefnogi ac yn herio gwaith yn y Cyfnod Sylfaen;
- yn gwneud yn siŵr bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant i'w galluogi i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus;
- yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymgysylltu'n eang wrth rannu arfer dda a dysgu proffesiynol i gryfhau ac ymestyn eu gallu i wella;
- yn defnyddio ymarferwyr yn dda, gan gynnwys staff cymorth, fel eu bod yn cyfrannu'n llawn i gefnogi dysgu'r plant;
- yn gweithio i ddarparu amgylchedd dan do ac amgylchedd awyr agored sy'n cefnogi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;
- wedi creu rhaglen gynlluniedig i adolygu ac arfarnu effaith y Cyfnod Sylfaen ac yn defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio ar gyfer gwella ymhellach;

- yn archwilio ystod o waith y plant yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael profiadau llawn, cyfoethog a heriol o ddarllen ac ysgrifennu mewn darpariaeth dan do a darpariaeth awyr agored;
- yn cynllunio'n dda ar gyfer gwella ac yn nodi meini prawf llwyddiant er mwyn mesur llwyddiant camau gweithredu o ran dysgu'r plant; ac
- mewn awdurdodau lleol, yn monitro'n rheolaidd ac yn arfarnu'n drylwyr i wneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddeall yn dda, yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn cyfrannu i safonau uchel?

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Dysgu gweithredol** | Mae'r term hwn yn ymwneud â phlant yn bod yn weithredol ac yn cymryd rhan yn eu dysgu yn hytrach na'u bod yn derbyn gwybodaeth yn oddefol. Mae'n pwysleisio profiad uniongyrchol sy'n cymell, yn ysgogi ac yn cefnogi plant i ddatblygu medrau a chysyniadau, yn cynnwys caffael iaith. |
| **Meysydd dysgu** | Mae saith maes dysgu (neu chwe maes dysgu lle'r Gymraeg* yw prif iaith y cyfathrebu) yn disgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen. Rhaid iddynt ategu ei gilydd a chydweithio i ddarparu dull trawsgwricwlaidd i ffurfio cwricwlwm perthnasol ymarferol. Mae'r meysydd dysgu yn cynnwys:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol;<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>• datblygiad mathemategol;<br>• datblygu'r iaith Gymraeg*;<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;<br>• datblygiad corfforol; a<br>• datblygiad creadigol. |
| **Asesu ar gyfer dysgu** | Dylanwad pwysig ar gyflawniad addysgol plant yw eu dealltwriaeth o ba mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wneud cynnydd. Pan fydd plant yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau asesu ffurfiannol, fel gosod targedau, ymgymryd ag asesu cyfoedion neu hunanasesu, cydnabod cynnydd yn eu gwaith ysgrifenedig, ac ati, maent yn gwella eu cymhelliant, eu hannibyniaeth, eu hyder a'u cyrhaeddiad. Mae'r cyfrwng pwerus hwn, sy'n cael ei adnabod fel Asesu ar gyfer Dysgu, yn galluogi plant i wella eu dysgu eu hunain ac mae'n digwydd ym mhob cyfnod o'r broses ddysgu. |
| **Dysgu sy'n cael ei ddechrau gan blant** | Cynlluniwyd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen i ganolbwyntio ar ddatblygiad a dysgu plant a bod yn hyblyg i ddilyn eu diddordebau a'u hanghenion. |
| **Darpariaeth barhaus** | Dyma ddull ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd yn y Cyfnod Sylfaen. Mae fel arfer yn cyfeirio at ddarparu meysydd dysgu yn yr |

| | |
|---|---|
| | amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored, fel tywod a dŵr. |
| **Darpariaeth well** | Darpariaeth well yw addasu a chyfoethogi darpariaeth mannau chwarae yn yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored mewn modd cynlluniedig, fel ychwanegu her at chwarae yn y dŵr. |
| **Tasgau ffocysedig** | Fel arfer, caiff tasgau ffocysedig eu harwain gan ymarferwyr ym mhob un o'r meysydd dysgu. Er enghraifft, mae'r achlysuron hyn wedi'u cynllunio ar gyfer addysgu medrau llythrennedd a rhifedd i grwpiau neu'r dosbarth cyfan. |
| **Darllen dan arweiniad** | Mewn darllen dan arweiniad, mae'r ymarferwr yn arwain grŵp bach o ddisgyblion sy'n debyg o ran gallu trwy'r testun. Bydd yr ymarferwr yn tynnu sylw'r plant at ystod o nodweddion yn y testun ac yn modelu ffyrdd o ddarllen, fel rhagfynegi a chrynhoi, ac ati. Fel arfer, bydd yr ymarferwr yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen yn unigol yng nghyd-destun y grŵp. |
| **Cwricwlwm cyfannol** | Fel cwricwlwm cyfannol, nid yw'r Cyfnod Sylfaen yn rhannu dysgu a dealltwriaeth plant yn adrannau ym meysydd y cwricwlwm. Mae dysgu ac addysgu yn cefnogi llawer o agweddau ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfnod neu angen penodol. |
| **Darllen unigol** | Mae darllen unigol fel arfer yn digwydd rhwng dysgwr ac ymarferwr/oedolyn. Caiff y testun ei weddu'n ofalus i allu darllen y dysgwr. Caiff y math hwn o ddull ei ddefnyddio'n aml ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig y mae angen ymarfer rheolaidd arnynt yn darllen gyda chymorth oedolyn. |
| **Modelu ysgrifennu** | Wrth fodelu ysgrifennu, mae'r ymarferwr yn dangos y broses ysgrifennu. Gall hyn gynnwys meddwl beth i'w ysgrifennu, ffurfio ac eglurdeb llythrennau unigol, sillafu, gramadeg yn cynnwys atalnodi, gosodiad a threfniadaeth a chynulleidfa. Yn aml, mae'r modelu'n digwydd mewn sefyllfa dosbarth cyfan. Mae holi ynglŷn â'r gwaith a'i addasu yn rhannau hanfodol o ddysgu ysgrifennu ac mae'r siarad a geir yn y mathau hyn o sesiynau datrys problemau yn darparu gwybodaeth hanfodol i blant ynglŷn â'r broses ysgrifennu. |

| | |
|---|---|
| **Dysgu yn yr awyr agored** | Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad o'r amgylchedd dysgu dan do. Yn gyffredinol, o ystyried materion iechyd a diogelwch, dylai plant allu symud yn rhwydd rhwng yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored. |
| **Ymwybyddiaeth seinyddol** | Ymwybyddiaeth o seiniau o fewn geiriau, fel y gallu i segmentu seiniau cydrannau. |
| **Ymarferwyr** | Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r term yn cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth. |
| **Darllen ar y cyd** | Mewn darllen ar y cyd, mae'r ymarferwr yn modelu'r broses ddarllen trwy ddangos y ffyrdd y mae darllenydd effeithiol yn meddwl wrth iddo/iddi ddarllen testun. Mae hyn fel arfer yn digwydd mewn sefyllfa dosbarth cyfan lle gall pawb weld y testun o lyfr mawr, ar sgrin neu fwrdd gwyn. Fel arfer, mae plant yn gwrando ar y testun yn cael ei ddarllen yn uchel, yn ymuno ac yn dilyn y darllen a dysgu oddi wrth enghraifft yr ymarferwr o ddadansoddi'r testun. |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Wendy Young AEM | Arolygydd Arweiniol |
| Bev Jenkins AEM | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Tîm |
| Lynda Newton AY | Arolygydd Tîm |
| Clive Phillips AEM | Arolygydd Tîm |